**Cofnodion heb eu cadarnhau o Gyfarfod Agored Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl Iechyd Cyhoeddus Cymru**
**6 Hydref 2022, 09:30**
**Lleoliad: drwy Microsoft Teams**

Heb eu cadarnhau

| | | |
|---|---|---|
| **Yn bresennol:** | | |
| Mohammed Mehmet | (MM) | Cadeirydd y Pwyllgor a Chyfarwyddwr Anweithredol (Awdurdod Lleol) |
| Kate Young | (KY) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Trydydd Sector) |
| **Yn mynychu:** | | |
| Jenny Ansell | (JA) | Rheolwr y Gwasanaeth Cynghori, Datblygu Sefydliadol a Phobl |
| Rachel Attwood | (RA) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Datblygu Sefydliadol ac Ymgysylltu |
| Tom Bannicott | (TB) | Arweinydd Dylunio a Darparu Rhaglenni |
| Rhiannon Beaumont-Wood | (RBW) | Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd |
| Liz Blayney | (LB) | Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Rheolwr Llywodraethu'r Bwrdd |
| Sarah Brewer | (SB) | Pennaeth Profiadau Gweithwyr |
| Helen Bushell | (HB) | Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd (Gadawodd am 09:40) |
| Paul Dalton | (PD) | Pennaeth Archwilio Mewnol, Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru |
| Rupinder Dogra | (RD) | Pennaeth Partneru Datblygu Sefydliadol a Phobl |
| Liz Heath | (LH) | Cynrychiolydd ochr y staff |
| Andrew Jones | (AJ) | Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio |
| Angela Jones | (AJo) | Cyfarwyddwr Iechyd a Llesiant Dros Dro |
| Joe O'Brien | (JOB) | Arweinydd Systemau a Dadansoddeg y Gweithlu |

| | | |
|---|---|---|
| Liz Heath | (LH) | Cynrychiolydd ochr y staff |
| Neil Lewis | (NL) | Cyfarwyddwr Datblygu Sefydliadol a Phobl |
| Samantha Morgan | (SM) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Strategaeth Pobl, Dealltwriaeth a Gwasanaethau |
| **Ymddiheuriadau** | | |
| Tracey Cooper | (TC) | Prif Weithredwr |
| Dyfed Edwards | (DE) | Cyfarwyddwr Anweithredol, a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol |
| Meng Khaw | (MK) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol |
| **Ysgrifenyddiaeth** | | |
| Andrew Morton | (AM) | Swyddog Cymorth y Bwrdd |

*Dechreuodd y cyfarfod am 09:32.*

**PODC 1/2022.10.06 Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau**

Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a chroesawu pawb a oedd yn bresennol.

**Nododd** y Pwyllgor yr ymddiheuriadau a oedd wedi dod i law.

**Nododd** y Pwyllgor fod y cyfarfod yn cael ei recordio er mwyn helpu i greu cofnodion cywir. Byddai'r recordiad yn cael ei ddileu ar ôl cytuno ar y cofnodion yn y cyfarfod nesaf ym mis Ionawr 2023.

**PODC 2/2202.10.06 Datgan Buddiannau**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau yn ychwanegol at y rheini sydd eisoes wedi'u datgan ar y Gofrestr Datgan Buddiannau.

**PODC 3/2022.10.06 Eitemau i'w Trafod**

**PODC 3.1/2022.10.06 Datblygu'r Dangosfwrdd Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant**

Cyflwynodd NL y rhan hon, gan atgoffa'r Pwyllgor fod y Dangosfwrdd wedi'i ddatblygu er mwyn i'r Sefydliad fwrw ymlaen â'i Gynllun Cydraddoldeb Strategol drwy ddefnyddio'r wybodaeth a gaiff ei chrynhoi ar y Dangosfwrdd hwn. Roedd y Dangosfwrdd wedi'i ddatblygu ar ôl trafodaeth yn y Pwyllgor y llynedd am Ddata Cydraddoldeb y Gweithlu, a oedd wedi'u cyflwyno yn yr Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol.

Dangosodd JOB y dangosfyrddau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant unigol, gan dynnu sylw at y canlynol:

- Y wybodaeth fanwl am Rywedd, Anabledd, Crefydd/Cred, Rhywioldeb, Ethnigrwydd, Oedran (roedd y Gymraeg wedi'i dangos ar y

Heb eu cadarnhau

Dangosfwrdd Sicrwydd Perfformiad ac roedd hwn yn cael ei ddiweddaru bob mis). Roedd modd gweld y Dangosfwrdd hwn ar lefel Cyfarwyddiaethau/Is-adrannau hefyd.
- Byddai modd edrych ar ddangosfyrddau unigol wedyn a chael mwy o fanylion. Er enghraifft, edrychwyd ar gydbwysedd rhywedd gweithwyr Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ôl Mis, Band Cyflog, Cyfarwyddiaeth ac Ethnigrwydd.
- Roedd manylion y dangosfyrddau Anabledd, Rhywioldeb, Ethnigrwydd a Chrefydd yn dangos bod llai o bobl o'r grwpiau oedran hŷn yn datgan nodweddion gwarchodedig.

Diolchodd MM i JOB ac SB am eu cyflwyniad, a dywedodd fod datblygu'r data yn y dangosfwrdd yn rhoi cyfle i ddeall y gweithlu'n well. Byddai'r wybodaeth fanylach a'r cyfleoedd i fyfyrio sy'n cael eu rhoi gan y data yn helpu'r sefydliad i fwrw ymlaen â'i flaenoriaeth i gael gweithlu sy'n adlewyrchu poblogaeth Cymru yn ei chyfanrwydd.

Awgrymodd y Pwyllgor y gellid defnyddio'r broses werthuso i atgoffa staff i ychwanegu eu data am Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

Roedd y Pwyllgor yn credu y gellid defnyddio'r cydbwysedd rhywedd a welir yn y Dangosfwrdd fel ffordd fanteisiol o farchnata mewn ysgolion a cholegau, er mwyn denu pobl sy'n awyddus i ddatblygu gyrfa ym maes iechyd y cyhoedd. Awgrymodd y Pwyllgor fod cyfle i ddenu staff drwy fanteisio ar y ffaith bod mwy o'r cyhoedd yn ymwybodol o Iechyd Cyhoeddus Cymru o ganlyniad i'r pandemig.

Awgrymodd y Pwyllgor y dylai cam nesaf y gwaith hwn ystyried a oedd y gweithlu yn adlewyrchu amrywiaeth poblogaeth Cymru yn ei chyfanrwydd.
**Cam Gweithredu: NL/SB/JOB**

Wrth gasglu data, nodwyd y dylai'r Sefydliad esbonio sut y byddai'r data'n cael eu defnyddio. Trafododd y Pwyllgor y rhesymau posibl pam fod y grŵp oedran hŷn yn llai parod i ddatgan, ac awgrymwyd y gellid ystyried sut mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn egluro pwysigrwydd y data a sut maen nhw'n cael eu defnyddio i'r holl staff, er mwyn annog pobl i gyfrannu ym mhob maes. Esboniodd SB fod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn creu llyfrynnau sy'n esbonio'r rhesymau dros gasglu data am Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

Nododd y Pwyllgor y lefel arbennig o isel o ddatganiadau am statws anabledd, a bod angen i'r sefydliad dargedu hyn er mwyn deall y rhesymau drosto ac annog staff i ddatgan.

Trafododd y Pwyllgor i ba raddau roedd gweithlu Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gynrychioladol o boblogaeth Cymru mewn canrannau. Roedd y data am y gweithlu a gyhoeddwyd ar 31 Mawrth 2022 yn dangos bod gan Iechyd

Heb eu cadarnhau

Cyhoeddus Cymru gynrychiolaeth dda. Ond yn yr wythnos cyn cyfarfod y Pwyllgor, roedd data cyfrifiad 2021 yng Nghymru wedi'u cyhoeddi, a'r rheini'n dangos cynnydd o 5.2% i 7.8% ym mhoblogaeth oedolion Cymru sydd o gefndir pobl Dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. A'r ffigur yn 6.1%, roedd y bobl hyn bellach wedi'u tangynrychioli yn Iechyd Cyhoeddus Cymru. Dywedodd hi hefyd fod y ffigurau hyn yn awgrymu bod cynrychiolaeth pobl LHDT yn Iechyd Cyhoeddus Cymru yn uwch na ffigurau Cymru, ond bod pobl anabl o hyd wedi'u tangynrychioli.

Diolchodd MM i'r tîm a chanmolodd y gwaith o ddatblygu'r dangosfwrdd. Roedd y Pwyllgor yn edrych ymlaen at gael diweddariadau yn y dyfodol, a gofynnodd am gynnwys straeon a phrofiadau'r staff yn y rhain.
**Cam Gweithredu: NL/JOB**

| **PODC 4/2022.10.06** | **Eitem i'w Chymeradwyo** |
| --- | --- |
| **PODC 4.1/2022.10.06** | **Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol (2021-22)** |

Ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2021-22. Roedd yr Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol yn rhoi manylion y gwaith a wnaeth y Sefydliad i sicrhau cydraddoldeb drwy'r holl Sefydliad. A hwnnw'n edrych yn ôl ar gyfnod blaenorol, roedd yr adroddiad yn trafod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022. Roedd y gwaith tuag at y nod o sicrhau cydraddoldeb drwy'r holl sefydliad wedi parhau fesul cam.

Awgrymodd y Pwyllgor y gallai adroddiadau'r dyfodol fod ar eu hennill o gynnwys gwybodaeth gan grwpiau Gofalwyr a manylion am hyfforddiant.

Roedd y Pwyllgor yn awyddus i ddefnyddio terminoleg addas yn yr Adroddiad, a nodwyd y dylai cyfeiriadau at Ofalwyr gyfeirio at 'Ofalwyr di-dâl' ar sail y diffiniadau yn y ddeddfwriaeth. Ar dudalen 34, gofynnodd y Pwyllgor am gywiro'r ymadrodd 'Once for Wales'.

Gofynnodd y Pwyllgor am adolygiad o sut roedd carfannau/nifer bach o bobl wedi'u cyflwyno yn yr adroddiad, i sicrhau bod yr adroddiad yn cydymffurfio â'r trefniadau ar gyfer Llywodraethu Gwybodaeth.

Gofynnodd y Pwyllgor am esboniad yn adroddiadau'r dyfodol ynghylch sut roedd y Sefydliad yn llwyddo o dan bob un o'i Amcanion Cydraddoldeb Strategol.
**Cam Gweithredu: SB/NL**

Mynegodd y Pwyllgor bryder nad oedd hyfforddiant gorfodol yn y maes ESR ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Sicrhaodd SB y Pwyllgor fod y tîm yn ymwybodol o'r mater hwn, a bod y mater yn debygol o gael sylw cyn diwedd y flwyddyn.

Aeth y Pwyllgor ati i wneud y canlynol:

Heb eu cadarnhau

- **Cymeradwyo** Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2021-22.
- **Nodi** y byddai'r adroddiad yn cael ei gyfieithu a'i gyhoeddi ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

| PODC 4.2/2022.10.06 | Adroddiad Blynyddol y Gweithlu 2021-22 |
| --- | --- |

Ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol y Gweithlu 2021-22, a oedd yn crynhoi amrywiaeth y gweithlu drwy'r Sefydliad. A hwnnw'n edrych yn ôl ar gyfnod blaenorol, roedd yr adroddiad yn trafod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022. Mae'r gwaith tuag at y nod o sicrhau cydraddoldeb yng ngweithlu'r holl sefydliad wedi parhau fesul cam yn y blynyddoedd diwethaf.
Aeth y Pwyllgor ati i wneud y canlynol:

- **Cymeradwyo** Adroddiad Blynyddol y Gweithlu 2021-22.
- **Nodi** y byddai'r adroddiad yn cael ei gyfieithu a'i gyhoeddi ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

| PODC 4.3/2022.10.06 | Cofnodion, Cofnod o Gamau Gweithredu a Materion yn Codi o gyfarfodydd (6 Gorffennaf 2022 a 6 Medi 2022) |
| --- | --- |

Trafododd y Pwyllgor y cofnodion a'r cofnod o gamau gweithredu.

**Cymeradwyodd** y Pwyllgor gofnodion cyfarfodydd 7 Gorffennaf 2022 a 6 Medi 2022.

**Cymeradwyodd** y Pwyllgor y ffaith fod tri cham gweithredu wedi'u cwblhau a nododd y cynnydd gyda'r cam gweithredu nad oedd wedi'i gwblhau eto. **Cytunodd** i gael adroddiad yn y cyfarfod nesaf.
**Cam Gweithredu: NL**

| PODC 5/2022.10.06 | Eitemau ar gyfer Sicrwydd |
| --- | --- |
| PODC 5.1/2022.10.06 | Rheoli Newid Sefydliadol |

Trafododd y Pwyllgor ddiweddariad am reoli Newid Sefydliadol yn Iechyd Cyhoeddus Cymru. Rhoddodd NL wybod i'r Pwyllgor bod y broses o symud y Timau Iechyd Cyhoeddus Lleol i'r Byrddau Iechyd wedi'i chwblhau ar 30 Medi 2022, a bod Memoranda Cyd-ddealltwriaeth wedi'u llunio ar gyfer gweithio yn y dyfodol.

Cafodd y Pwyllgor gyflwyniad gan RD a TB a oedd yn canolbwyntio ar Newid Sefydliadol ac yn gysylltiedig â Risg Strategol 3. Newid Sefydliadol oedd un o'r pum blaenoriaeth fawr yn y maes Pobl a Datblygu Sefydliadol (Gweithio i alluogi swyddogaethau a chynllunio newid, sicrhau parodrwydd a chapasiti ar gyfer rhaglenni gan arwain at bontio cynaliadwy gan barhau i ymgysylltu a pherfformio'n dda). Roedd y Gyfarwyddiaeth yn cefnogi rheolwyr a staff drwy'r newid, ac ambr oedd y risg strategol gyffredinol ar gyfer Risg 3.

Heb eu cadarnhau

Cynhaliwyd astudiaethau dichonolrwydd ar ôl rhoi cyflwyniad cychwynnol i'r Tîm Busnes Gweithredol ym mis Ebrill 2022, a hwnnw wedi canfod yr haenau o newid yr oedd eu hangen; comisiynwyd asesiad cyflym o ddichonolrwydd a oedd yn cyflwyno'r camau nesaf ar gyfer cyflawni'r rhaglen.

Roedd y cyflwyniad yn crynhoi'r tri math o newid mewn rhaglenni – ar lefel Sefydliadol, lefel Cyfarwyddiaethau a lefel Is-adrannau. Gwelwyd y nifer mwyaf o newidiadau yn yr Is-adran Diogelu Iechyd a Sgrinio, a dangosodd y canfyddiadau cychwynnol fod newidiadau mawr wedi deillio wrth ddysgu o'r ymateb i Covid-19 a'r gwaith adfer. Ambr/gwyrdd oedd yr asesiad ar gyfer cyflawni'r rhaglenni hyn/yr hyder ynddyn nhw, sy'n awgrymu bod eu cyflawni'n debygol.

Roedd y gwaith presennol ar y gweill yn cynnwys ymarfer cwmpasu cyflym ar gyfer rhaglenni pwysig a datblygu dangosfwrdd ar gyfer rhaglenni Haen 1. Roedd cymuned ar gyfer rheoli prosiectau a rhaglenni wedi'i chreu er mwyn cynllunio dichonolrwydd ac asesiadau i gwmpasu rhaglenni newid yn y dyfodol.

Roedd gwaith wedi parhau ym maes Risg Strategol 3; roedd camau lliniaru wedi'u canfod er mwyn gwneud gwaith strategol i gynllunio'r gweithlu a gwaith comisiynu a chanfod adnoddau ar gyfer newid sefydliadol.

Trafododd y Pwyllgor y dull a ddilynwyd i gyflwyno rhaglenni newid a nododd fod Risg 3 yn dal yn ambr. Esboniodd NL fod y sgôr wedi gostwng o ambr/coch i ambr, gan fod camau wedi'u cymryd i liniaru'r risgiau i'r Sefydliad; roedd y statws ambr yn parhau gan fod angen cymryd camau gweithredu yn gysylltiedig â rhai risgiau o hyd. Nodwyd bod yr holl brosesau wedi'u llunio ac yn cael eu rhoi ar waith yn y modd y bwriadwyd er mwyn cyflawni'r newidiadau arfaethedig.

Cafodd y Pwyllgor sicrwydd bod gofodau dysgu ac ymarferion adborth wedi'u cyflwyno er mwyn i'r Sefydliad fod ar ei ennill yn ystod y broses newid ac ar ei hôl.

Gofynnodd y Pwyllgor a oedd digon a gapasiti yn Iechyd Cyhoeddus Cymru ar hyn o bryd i gyflawni'r holl newidiadau a amlinellir yn y rhaglen yn llwyddiannus. Awgrymodd y Pwyllgor fod adolygu'r risg gyffredinol i'r Sefydliad yn bwysig wrth flaenoriaethu'r rhaglen. Sicrhaodd NL y Pwyllgor fod hyn yn cael ei adolygu ac y byddai camau'n cael eu cymryd i ohirio rhaglenni newid dros dro, neu i ddod â'r rheini i ben lle byddai angen.

Rhoddodd AJ grynodeb o'r broses o symud y Timau Iechyd Cyhoeddus Lleol: symudwyd y timau ar 30 Medi 2022 yn unol â'r cynllun, a chafodd y saith Bwrdd Iechyd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru gefnogaeth Llywodraeth Cymru yn hynny o beth. Roedd y gwaith datblygu ac ymgysylltu wedi mynd yn dda.

Heb eu cadarnhau

Diolchodd cynrychiolwyr ochr y staff i AJ a'i dîm am y modd y bu'n ymwneud â'r Undebau Llafur drwy gydol y prosiect, a chanmolwyd y tîm am ei waith da.

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** fod y dull cywir o reoli newid wedi'i fabwysiadu drwy Iechyd Cyhoeddus Cymru, a dim ond ar ôl cwblhau astudiaethau dichonolrwydd y byddai rhaglenni'n cael eu lansio.

| **PODC 5.2/2022.10.06** | **Rheoli Risgiau** |
|---|---|

Trafododd y Pwyllgor y Cofrestri Risgiau Corfforaethol a Strategol. Atgoffodd RBW y Pwyllgor fod dwy risg strategol (risgiau 3 a 4) a dwy risg gorfforaethol (risgiau 206 a 301) o fewn cylch gwaith y Pwyllgor hwn.
Tynnodd RBW sylw at faint o waith a oedd yn gysylltiedig â pharatoi at Ymchwiliad Cyhoeddus ac awgrymodd y gellid ystyried hyn fel risg i'w chynnwys ar y Gofrestr Risgiau Strategol. Nodwyd mai rôl y Bwrdd oedd llunio'r Gofrestr Risgiau Strategol.

Atgoffodd NL y Pwyllgor fod y risgiau'n gysylltiedig â Phum Blaenoriaeth Fawr Datblygu Sefydliadol a Phobl, ac roedd cynnydd da'n cael ei wneud ym mhob un o'r meysydd hynny. Nododd y Pwyllgor y byddai'n cael adroddiad am y cynnydd yn un o gyfarfodydd y dyfodol.

Aeth y Pwyllgor ati i wneud y canlynol:

- **Trafod** y Cofrestri Risgiau Strategol a Chorfforaethol a oedd yn berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor
- Cael **sicrwydd** bod risgiau strategol a chorfforaethol y sefydliad yn cael eu rheoli'n iawn

| **PODC 5.3/2022.10.06** | **Ymwneud â Staff a Phartneriaethau** |
|---|---|
| **PODC 5.3.1/2022.10.06** | **Diweddariad y Fforwm Partneriaeth Lleol** |

Rhoddodd SM drosolwg o waith y Fforwm Partneriaeth Lleol.

Trafodwyd y lefelau presenoldeb yng nghyfarfodydd y Fforwm Partneriaeth Lleol, a nododd y Pwyllgor fod presenoldeb Aelodau'r Fforwm Partneriaeth Lleol mewn cyfarfodydd yn isel. Roedd Pwyllgor y staff wrthi'n adolygu ei Gylch Gorchwyl, ac fel rhan o hyn, byddai'r aelodaeth hefyd yn cael ei hadolygu. Roedd SM yn bwriadu datblygu cynllun gwaith i'w gyflwyno i'r Fforwm Partneriaeth Lleol er mwyn sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'r hyn a oedd yn cael ei ddatblygu a'i drafod.

Gofynnodd RBW i SM am gyfraniad y Coleg Nyrsio Brenhinol at y Fforwm Partneriaeth Lleol a chytunodd RBW i gwrdd ag SM y tu allan i'r Pwyllgor i drafod hyn.
**Cam Gweithredu: RBW/SM**

Heb eu cadarnhau

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** o’r adroddiad am sefyllfa ddiweddaraf y Fforwm Partneriaeth Lleol.

| **PODC 5.3.2/2022.10.06** | **Ymgysylltu’n ehangach â’r staff / Arolwg y GIG** |
|---|---|

Clywodd y Pwyllgor y byddai’r raddfa ymgysylltu meddygol yn dod i ben fel graddfa ar wahân, ac y byddai’r grŵp yn cael ei integreiddio yn rhan o Arolwg Staff Cymru Gyfan yn y dyfodol. Ar hyn o bryd, roedd gwaith sylweddol yn dal i fynd rhagddo wrth ymateb i’r raddfa ymgysylltu meddygol ddiwethaf, gan gynnwys nifer o grwpiau ffocws a grwpiau sy’n cynllunio camau gweithredu dilynol ar gyfer y dyfodol agos.

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** o’r diweddariad am y Raddfa Ymgysylltu Meddygol.

Clywodd y Pwyllgor y byddai oedi gydag Arolwg Staff Cymru Gyfan tan y gwanwyn, yn sgil adborth gan y Fforymau Partneriaeth Lleol. Roedd manyleb wedi cael ei datblygu ar gyfer yr arolwg, a chontract tair blynedd wedi’i gymeradwyo a hwnnw’n cynnwys opsiynau ar gyfer arolygon lleol.

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** gan yr adroddiad am Arolwg Staff y GIG sydd i’w gynnal maes o law.

| **PODC 5.4/2022.10.06** | **Codi Pryderon a Chwynion: Diweddariad ac Adroddiad Sicrwydd** |
|---|---|

Trafododd y Pwyllgor y Diweddariad a’r Adroddiad Sicrwydd ynghylch Codi Pryderon a Chwynion. Dywedodd LB fod yr adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno i’r Pwyllgor yn dilyn cam gweithredu mewn Adroddiad Archwilio Mewnol a awgrymodd y dylid llunio adroddiad blynyddol sy’n cyflwyno ffigurau am bryderon a chwynion i’r Bwrdd drwy’r Pwyllgor hwn, er mwyn rhoi sicrwydd. Dangosai’r adroddiad nad oedd unrhyw bryderon wedi’u codi eleni. Amlinellodd hi’r gwaith pellach a oedd wedi’i gynllunio i hyrwyddo’r polisi codi pryderon drwy hyfforddi rheolwyr, a fyddai’n codi ymwybyddiaeth o’r polisi.

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** bod y rheolwyr yn rheoli’r Polisi Codi Pryderon yn effeithiol.

| **PODC 5.5/2022.10.06** | **Crynodeb o Bolisïau – Diweddariad Chwemisol** |
|---|---|

Trafododd y Pwyllgor y Crynodeb o Bolisïau – Diweddariad Chwemisol.

Gofynnodd y Pwyllgor am y broses o ddatblygu polisïau ar gyfer Cymru gyfan. Cadarnhaodd NL fod y rhain yn cael eu datblygu ar sail Cymru gyfan, a bod gwaith ymgynghori arnyn nhw’n cyd-fynd â’r broses y cytunwyd arni. Dywedodd NL wrth y Pwyllgor fod Cyflogwyr GIG Cymru yn gweithio ar ran holl gyrff GIG Cymru ac yn gofyn am farn y Byrddau a’r Ymddiriedolaethau,

Heb eu cadarnhau

gan hwyluso’r gwaith trafod telerau gyda’r Undebau Llafur ar sail ranbarthol a chenedlaethol, gyda’r Fforymau Partneriaeth Lleol yn gwneud gwaith craffu.

Gofynnwyd i’r Pwyllgor sut y gellid adlewyrchu’r gwahaniaethau rhwng gwahanol sefydliadau’r GIG mewn un polisi a mabwysiadu hwnnw ar sail genedlaethol ar gyfer Cymru gyfan. Esboniwyd bod polisïau ar gyfer Cymru gyfan yn cael eu dehongli ar lefel leol i sicrhau bod modd eu defnyddio yn Iechyd Cyhoeddus Cymru cyn eu cymeradwyo.
Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch y gwaith blaenoriaethu a’r cynnydd a oedd yn cael ei wneud i adolygu polisïau, gweithdrefnau a dogfennau ysgrifenedig eraill ym maes rheoli corfforaethol a oedd yn berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor.

| **PODC 6/2022.10.06** | **Argymhellion i’r Bwrdd** |
|---|---|

Trafododd y Pwyllgor adroddiad yn amlinellu diwygiadau arfaethedig i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor ac yn gofyn am wneud argymhelliad i’r Bwrdd. Rhoddodd LB wybod i’r Pwyllgor am drafodaethau yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mai a awgrymai fod angen i’r elfen a oedd yn ymwneud â gwaith partneriaeth y Pwyllgor fod yn amlycach yn y ddogfen. Awgrymwyd gwneud dau newid i’r Cylch Gorchwyl er mwyn datrys hyn.

Aeth y Pwyllgor ati i wneud y canlynol:
- **Trafod** y newidiadau arfaethedig i gylch gorchwyl y Pwyllgor;
- **Argymell** y cylch gorchwyl diwygiedig i’r Bwrdd i’w gymeradwyo

| **PODC 7/2022.10.06** | **Eitemau i’w Nodi** |
|---|---|
| **PODC 7.1/2022.10.06** | **Cynllun Gwaith** |

**Nododd** y Pwyllgor y cynllun gwaith.

| **PODC 7.2/2022.10.06** | **Y Dangosfwrdd Sicrwydd Perfformiad** |
|---|---|

**Nododd** y Pwyllgor y Dangosfwrdd Sicrwydd Perfformiad.

| **PODC 8/2022.10.06** | **Materion Gweinyddol i Gloi** |
|---|---|

Unrhyw fusnes arall:
- Nid oedd unrhyw fusnes arall i’w nodi.

Adborth gan y Pwyllgor:
- Gwahoddwyd y Pwyllgor i roi adborth am y cyfarfod gan gynnwys unrhyw beth a weithiodd yn dda, ac unrhyw beth y gellid ei wella.

Dyddiad y cyfarfod nesaf:
- Byddai’r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ddydd Mercher 23 Ionawr 2023.

*Daeth y cyfarfod i ben am 11:45*

Heb ei cadarnhau

Heb eu cadarnhau